

Dawn Bowden AC

Cadeirydd

Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

29 Ionawr 2020

Annwyl Dawn,

Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2019 yn gofyn am farn ar oblygiadau posibl unrhyw newid ym maint y Cynulliad i bwyllgorau'r Cynulliad. Trafododd y Pwyllgor hyn yn ei gyfarfod diweddar ac mae'r sylwadau a ganlyn yn adlewyrchu barn y mwyafrif ohonom:

- Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Aelodau yw bod maint presennol y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i lawer o Aelodau eistedd ar fwy nag un pwyllgor wythnosol. Teimlai'r Aelodau fod hyn yn effeithio ar eu gallu i baratoi ar gyfer pob cyfarfod mor drylwyr ag yr hoffent. Nododd yr Aelodau hefyd y cynnydd sylweddol yn y llwyth gwaith yn ystod y deng mlynedd diwethaf, ac yn enwedig yn dilyn y cynnydd mewn pwerau deddfwriaethol.
- O ystyried ehangder y portffolio iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a chwaraeon, mae'n anochel y bu'n rhaid inni, ar adegau, wrthod ceisiadau gan Aelodau neu randdeiliaid i gynnal ymchwiliadau. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n teimlo bod capasiti a phwysau amser wedi cyfyngu ar eu gallu i wneud gwaith dilynol ar ymholiadau blaenorol yn enwedig, gan gynnwys gwaith deddfwriaethol.
- Yn olaf, trafododd yr Aelodau y toreth o Grwpiau Trawsbleidiol yn y Cynulliad hwn. Roedd barn mai ymdrech i wneud iawn am y ffaith na all pwyllgorau gwmpasu pob maes o'u portffolio yn fanwl oherwydd diffyg capasiti oedd hyn, yn rhannol.



Gobeithio y bydd hyn o gymorth i'ch trafodaethau.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading "Dai Lloyd AC". The signature is written in a cursive style with a large initial 'D'.

Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

